# Y GWASANAETH ADDYSG:

# CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 17 Mawrth 2021
**Lleoliad:** Gwahoddiad Microsoft Teams

## DRAFT AGENDA

| Cyf. | Eitem | Categori | Yn Arwain |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau a chroeso i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY) | Eitem sefydlog | Cadeirydd |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod blaenorol (24 Chwefror 2021) a materion yn codi: | Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi) | Cadeirydd |
| 3 | Fformiwla Ariannu Ysgolion 2021/22 | Gwybodaeth a Thrafodaeth | Neil Hardee, Rob Green |
| 4 | Unrhyw Fater Arall | Eitem sefydlog | Cadeirydd |

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol -

12 Mai 2021
7 Gorffennaf 2021

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

## Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

## COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 17 Mawrth 2021
**Lleoliad:** Microsoft Teams
**Yn bresennol:** Karen Dell'Armi - Cadeirydd (KD), Cyng Sarah Merry, Cyng Chris Weaver, Cyng Joel Williams (JW), Mel Godfrey (MG), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Marc Belli (MB), Ivor Gittins (IG), Jane Marchesi (JM), Suzanne Williams (SW), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), Adrian Dinsmore (AD), David Harris (DH), David Silver (DS), Kevin Hart (KH), Catherine Power (CP), Wayne Murphy (WM), Jenny Hughes (JHu), Louise Bloom – Clerc (LB)

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), Abigail Beacon (AB), Sara Allen (SA), Jane Marchesi (JM), Cyng Joel Williams (JW)

| Cyf. | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd aelodau a derbyniodd yr ymddiheuriadau. | |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** | |
| 2.2 | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021 fel cofnod cywir. | |
| 2.3 | <u>Materion yn codi</u><br><br>Cofnod 2.3: Cyllidebau dros ben, rhannodd RG ddadansoddiad dienw o hawliadau o'r gronfa galedi, wedi ei gymharu â chyllidebau ysgolion. Bydd y papur yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r fforwm yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Cofnod 3.5: Anfonwyd llythyr gan y fforwm mewn ymateb i'r fframwaith ar gyfer gwerthuso ar wella ac atebolrwydd Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.<br><br>Holodd AJ sut y gellid annog ysgolion i wneud hawliad o'r gronfa caledi am bwysau ar ysgolion i gwmpasu pethau fel cyfarpar diogelu personol yn effeithiol a chynnal swigod ar wahân. Cadarnhaodd RG, fel cronfa galedi, yr egwyddor bwysicaf ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y dylid amsugno costau lle y bo'n bosibl; dim ond os ydynt yn dioddef caledi ariannol oherwydd y pandemig y dylai ysgolion fod yn gymwys. Bydd y gronfa galedi yn parhau i 2021. Os yw ysgolion unigol yn cyflawni arbedion, dylid eu defnyddio i wrthbwyso costau. Lle nad yw ysgolion unigol wedi gwireddu arbedion, gallant wneud hawliadau caledi. Yn y flwyddyn ariannol newydd bydd gan ysgolion gyllidebau/balansau newydd a gellir ystyried hawliadau lle bo angen. | <br><br>LB |

| | | |
|---|---|---|
| | Cwestiynodd JS y costau ychwanegol y byddai ysgolion yn eu hysgwyddo ar gyfer arholiadau a phrosesau arholi. Efallai y bydd angen rhyddhau athrawon cyfnod allweddol pedwar a phump o ddyletswyddau eraill i gefnogi disgyblion blwyddyn 11 a 13. Byddai llwythi gwaith a gofynion ychwanegol yn cael eu rhoi ar grwpiau o athrawon ac efallai y byddai angen cymorth gweinyddol, neu gostau i ryddhau athrawon o ymrwymiadau addysgu eraill a phrynu athrawon cyflenwi.<br><br>Tynnodd JH sylw at faich drom cymedroli ar ôl y Sulgwyn, a oedd yn gofyn am gymorth ychwanegol a chostau staff i ryddhau uwch arweinwyr, athrawon a rheolwyr. Ychwanegodd SP y byddai angen hyfforddiant ar staff ychwanegol hefyd. Nododd MB y byddai £2,000 i £4,000 (yn dibynnu ar faint yr ysgol) yn cael ei ddyrannu i ysgolion unigol fel rhan o grantiau i gefnogi adrannau un person. Mae'n bosib y gallai canllawiau gweithredu diwygiedig gefnogi dysgu o bell.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd fynd ar drywydd cymorth ariannol ar gyfer costau ychwanegol goruchwylio arholiadau. Bydd RG yn codi gyda Llywodraeth Cymru a fyddai'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol ac a fyddai hawliadau o'r Gronfa Caledi yn gymwys.<br><br>Rhannodd MT ganllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion o 12 Ebrill a gwahoddodd yr aelodau i anfon eu sylwadau ato ar faterion y mae angen eu datblygu, a allai hefyd gael eu hymgorffori yng nghanllawiau yr ALl.<br><br>Nododd MB fod y canllawiau dysgu, sydd eto i'w rhyddhau, yn amwys o ran dysgu cyfunol. Roedd ei ysgol wedi gobeithio creu lle yn yr haf i ddarparu darpariaeth ar y safle ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant a nodwyd sy'n agored i niwed gyda deunyddiau anghydamserol a ffocws ar lesiant, gan ryddhau diwrnodau ar gyfer cyfleoedd asesu a hyfforddi gyda staff i leihau apeliadau.<br><br>Roedd MT yn falch o nodi fod y canllawiau dysgu yn canolbwyntio ar lesiant disgyblion. Bydd swyddogion addysg yn anfon cyfathrebiadau ar arholiadau allan ar ôl y Pasg, gan ddarparu gwybodaeth gadarnhaol am ysgolion a graddau bob tymor athrawon. Byddai adborth gan benaethiaid uwchradd yn cael ei groesawu i'w gynnwys yn y cyfathrebu er mwyn lleddfu'r pwysau ynghlwm ag arholiadau. | RG |
| 3 | **Fformiwla Ariannu Ysgolion 2021/22** | |
| 3.1 | Tynnodd NH sylw at lythyr fformiwla'r ysgol, a ddosbarthwyd gyda chyllidebau dirprwyedig ysgolion a'i ddosbarthu i benaethiaid a Chadeiryddion llywodraethu. Yn flaenorol, roedd y fforwm wedi myfyrio ar gyd-destun cyllideb gyffredinol y Cyngor a chynnydd net o £6.632m mewn arian parod i ysgolion, gan ystyried niferoedd newidiol disgyblion, y galw sy'n deillio o anghenion ychwanegol disgyblion a phwysau chwyddiant sy'n gysylltiedig â thâl a phensiynau.<br><br>Atgoffodd y fforwm o'r cyfraniadau parhaus o gyllideb yr ysgol tuag at Raglen Band B Ysgolion y 21 Ganrif, rhaglen adnewyddu asedau ysgolion well a'r arbedion effeithlonrwydd cyffredinol. Roedd y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) wedi cynyddu'n gyffredinol ledled Cymru o £10m i £11m gyda chyllid Caerdydd yn aros ar yr un lefel yn hytrach na | |

| | | |
|---|---|---|
| | gostwng.  Cynyddodd cyllid grant ôl-16 yn ysgolion Caerdydd £1.381m.<br><br><u>Cyllidebau Cyfun</u><br><br>Crëwyd cyllideb gyfunol dros dro eleni o gyllidebau dirprwyedig ysgolion drwy gadw arian ar gyfer yr hen dimau arbenigol dirprwyedig a'r gwasanaeth Seicoleg Addysg. Caiff y model masnachu ei adolygu dros flwyddyn neu ddwy er mwyn rhoi model cyflenwi gwasanaeth diwygiedig ar waith, ynghyd â model ariannu newydd.<br><br>Mae 1.5% o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol wedi'i chadw mewn cyllideb TGCh gyfunol ar gyfer 2021/22; bydd elfen debyg ar wahân yn cael ei chadw o'r grant Ôl-16.<br><br>Gofynnwyd i ysgolion drwy swyddogion Rheoli Cyllid Lleol beidio ag adeiladu dyfarniadau cyflog i'w cynlluniau cyllideb yn y dyfodol, oherwydd ansicrwydd ynghylch a fydd dyfarniad cyflog yn cael ei weithredu ai peidio. Mae'r Cyngor wedi cynnwys symiau o fewn ei gyllideb gyffredinol ar gyfer chwyddiant cyflogau ar lefel benodol ac, os cytunir ar ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2021/22, caiff y symiau eu dosbarthu i ysgolion ar y lefel y cytunwyd arni.<br><br>Bydd cyllidebau ysgolion a gymeradwyir gan lywodraethwyr yn cael eu cyflwyno i'r ALl erbyn canol mis Mai. Os yw ysgolion mewn sefyllfa ddiffygiol, gofynnir iddynt gysylltu â swyddogion ariannol, erbyn 30 Ebrill, a fydd yn trefnu i weithio gyda'r ysgol i bennu eu cyllideb a datblygu cynllun ariannol tymor canolig.<br><br>Rhannodd NH bapurau yn manylu ar ddosbarthiad cyllidebau a'r effaith ar ysgolion unigol rhwng 2020/21 a 2021/22, gan nodi cyfanswm o £253,036,390 a ddirprwywyd yn 2021/22 a £21,823,730 wedi'i gyfuno.<br><br>Nododd Llywodraeth Cymru y gallai ALl gadw hyd at 3% o'r grant AdAS (ôl-16) yn 2021/22.  Byddai ailddosbarthu yn ystod y flwyddyn yn digwydd yn ddiweddarach yn seiliedig ar niferoedd gwirioneddol disgyblion ôl-16. | |
| 3.2 | <u>Ysgolion Arbennig</u><br><br>Rhoddodd NH drosolwg o'r newidiadau i gyllid 2021/22 mewn ysgolion arbennig a nododd:<br><br>• Mae'r cyllid yn seiliedig ar niferoedd lleoedd a chategorïau lleoedd (A i H).<br>• Bydd nifer y lleoedd yn cynyddu i 685.75 o 653.00.<br>• Mae gwerthoedd Uned a Bwysolwyd ar Sail Oed Disgybl (UBSOD) a chategori lleoedd wedi gostwng drwy'r blynyddoedd oherwydd newidiadau yn niferoedd disgyblion/niferoedd lleoedd a 0.5% o arbedion effeithlonrwydd yn 2020/21.<br>• Dyrannwyd £453,901 ychwanegol ar gyfer lleoedd<br>• Mae lefel CLG wedi gostwng oherwydd effaith blwyddyn lawn CLG craidd TGCh ar ysgolion arbennig.<br>• Mae CLG y Seicolegwyr Addysg wedi'i ddileu o'r gyllideb ddirprwyedig.<br>• 1% o arbedion effeithlonrwydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Yn gyffredinol bydd ysgolion arbennig yn derbyn £254,490 yn ychwanegol | |
| 3.3 | Ysgolion Cynradd<br>• Disgwylir i niferoedd disgyblion ysgolion cynradd ym mis Medi 2020/21 leihau mwy nag y mae ysgolion yn ei ragweld ar hyn o bryd.<br>• Defnyddir niferoedd disgyblion i ddyrannu'r rhan fwyaf o gyllidebau dirprwyedig.<br>• Anfonodd NH e-bost at benaethiaid cynradd ar 1 Chwefror yn eu rhybuddio bod yr amcanestyniadau yr oeddent wedi'u gwneud gyda'i gilydd yn fwy na'r disgwyl.<br>• Adeiladwyd y ffigurau disgwyliedig i werth UBSOD y gyllideb a ddyrannwyd.<br>• Pe bai'r niferoedd yn gostwng fel y rhagwelwyd, byddai cynnydd sylweddol yn yr addasiad negyddol i nifer y disgyblion yn 2022/23.<br>• Byddai ysgolion unigol yn talu cost niferoedd gwirioneddol y disgyblion o gymharu â niferoedd rhagamcanol y disgyblion.<br>• Mae £2.4m o gyllid ar gyfer timau arbenigol wedi'i atal yn ganolog.<br>• Mae Elfennau CLG wedi gostwng £360k oherwydd effaith lawn craidd TGCh<br>• Cynnydd yn y gwerth effeithlonrwydd o 0.5% i 1%.<br>• Yn gyffredinol fe ostyngodd arian parod £4,705,280 | |
| 3.4 | Ysgolion Uwchradd<br>• Mae niferoedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn parhau i godi; disgwylir i'r cynnydd barhau am ddwy flynedd.<br>• Mae £980,530 wedi'i ddal yn ôl yn ganolog i'r timau arbenigol.<br>• Effaith CLG craidd TGCh lawn o -£60,000<br>• Arbedion effeithlonrwydd o 1%<br>• Cynnydd cyffredinol mewn arian parod o £1,955,680 | |
| 3.5 | Grantiau<br><br>Amlinellodd NH grantiau a oedd ar gael ar ôl dosbarthu cyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion.<br><br>Yn ddiweddar cyhoeddodd y gweinidog addysg £72m ychwanegol o gyllid i ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £33m o'r arian ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Mae £30m wedi'i ddynodi i ychwanegu at adferiad, recriwtio ac adnewyddu yn dilyn y pandemig ar gyfer blynyddoedd un i ddeg. O'r £30m, bydd ysgolion Caerdydd yn derbyn £3.6m cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhannwyd y ffigurau yng nghynhadledd y penaethiaid uwchradd ar 11th Mawrth.<br><br>Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu swm ychwanegol o £597,000 i Gaerdydd i gefnogi disgyblion mewn grwpiau blwyddyn arholiad, a ddosbarthwyd i ysgolion uwchradd.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dyrannu £45m yn ychwanegol i helpu ysgolion wrthbwyso gwariant ym mlwyddyn ariannol 2020/21, ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw refeniw, costau gofalu a chostau glanhau nad ydynt wedi'u hariannu gan unrhyw grant arall gan Lywodraeth Cymru. O'r £45m, bydd ysgolion Caerdydd yn derbyn £1.5m. Hysbyswyd cyfanswm o £9.3m o gyllid ychwanegol i ysgolion yr wythnos diwethaf i'w dalu i gyllideb | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddirprwyedig yr ysgolion cyn 31 Mawrth 2021. | |
| 3.6 | <u>Balansau Ysgolion</u><br><br>Byddai balansau ysgol o tua £17.5m yn cael eu dwyn ymlaen a'u defnyddio yn 2021/22 a nhw yw'r lefel uchaf a welwyd. Cynhelir sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru ar yr hyblygrwydd a gynigir i ysgolion i ddiddymu trothwyon, adfachu a chynlluniau gwariant dros dro er mwyn galluogi ysgolion i weithio allan eu cynlluniau ariannol ar gyfer 2021/22. | |
| 3.7 | Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y llywodraethwyr.<br><br>Nododd WM effaith sylweddol y gostyngiad mewn gwerthoedd ar gyfer ysgolion arbennig. Mae angen trafodaethau fel sector. Argymhellodd fwy o waith ar y fformiwla i ddod ag ef i'r man lle mae angen iddo fod. Cydnabu NH y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal, gan ofyn i ysgolion gysylltu â swyddogion i drefnu cyfarfod pe bai angen. Argymhellodd ffurfio gweithgorau ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig i edrych ar gyllidebau dirprwyedig ysgolion ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref, er mwyn cyfrannu at y strategaeth cyllideb ysgolion yn 2022/23. Bydd RG ac NH yn cysylltu ag aelodau i ffurfio'r gweithgorau. Byddai'r modd y mae'r arbedion effeithlonrwydd wedi effeithio ar gyllidebau dirprwyedig yn cael ei archwilio.<br><br>Argymhellodd KH adolygiad i liniaru problemau yn y dyfodol gyda thoriadau a balansau ysgolion a gaiff eu cario ymlaen, gan dynnu sylw at y ffaith mai darparu cymorth ychwanegol i blant yw diben y grantiau ond y byddent yn cael eu defnyddio i fantoli cyllidebau. Roedd posibilrwydd na fyddai cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i blant pan fydd ei angen fwyaf arnynt.<br><br>Cadarnhaodd NH y byddai eglurder ar drothwyon yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru a'i gadarnhau i ysgolion cyn 31 Mawrth.<br><br>Holodd NN beth fyddai'n digwydd i'r swm a ddelir yn ganolog pe na bai dyfarniad cyflog yn dod. Ymatebodd RG y byddai'r swm yn cael ei ddychwelyd i'r Cyngor cyfan er mwyn penderfynu ar ddiben arall, gellir ei ddal ar gyfer dyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Pe bai dyfarniad cyflog, byddai'n cael ei ddosbarthu'n awtomatig i ysgolion. Gofynnodd y Cadeirydd am y swm sy'n weddill o fewn addysg. Awgrymodd NN y dylid rhoi'r arian tuag at ysgolion a darpariaeth arbennig i gefnogi'r weledigaeth ehangach a lefel y cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion i gyflawni eu gorau. Roedd yr Aelodau'n cytuno'n fras. | RG/NH<br><br>NH |
| 4 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 4.1 | Tynnodd NN sylw at adolygiad EMTAS o gyllid ar gyfer ysgolion peilot a gofynnodd sut y byddai hyn yn effeithio ar gyllid EMTAS ehangach. Holodd a yw ysgolion yn ymwybodol o'r newidiadau i gyllid a sut y byddai cyllid yn cael ei ailddosbarthu. Esboniodd NH fod Casnewydd, Abertawe, Caerdydd a Wrecsam yn derbyn £10m o gyllid yn rheolaidd fel grant ychwanegol. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf, mae'r boblogaeth wedi gwasgaru gyda mwy o ddisgyblion yn symud i'r wlad, gan arwain at fwy o ddosbarthiad ar draws yr awdurdodau lleol. Oherwydd y newidiadau, adolygodd Llywodraeth Cymru eu fformiwla ac ailddosbarthu cyllid ar draws holl | |

| | | |
|---|---|---|
| | awdurdodau Cymru. Ffurfiwyd grŵp gorchwyl a nodwyd, yn ogystal â mwy o ddisgyblion EMTAS, nad oedd y swm a ddarparwyd wedi codi mewn blynyddoedd felly gofynnwyd am fwy o arian i fynd i'r afael â'r bwlch. Defnyddir cyllid ar y cyfan i dalu athrawon, mae cyflogau wedi codi dros y blynyddoedd gan greu bwlch mwy a thoriad mewn termau real.<br><br>Yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru cynyddwyd y grant o £10m i £11m gyda chyllid Caerdydd yn parhau i fod yn £4m yn hytrach na lleihau. Mae poblogaeth EMTAS hefyd wedi gwasgaru yng Nghaerdydd. Chwe/saith mlynedd ynghynt, dirprwyodd pum ysgol beilot gyllid i ysgolion. Dirprwywyd adnoddau a chyfrifoldeb o'r grant i ysgolion a oedd yn derbyn staffio ar y pryd. Ers sefydlu'r ysgolion peilot, mae mwy o ysgolion wedi cymryd plant o gymunedau EMTAS. Ystyriwyd sail fformiwla ar gyfer ariannu, pe bai plant yn cael pwyntiau yn seiliedig ar gaffael iaith byddai dosbarthiad y cyllid yn amrywio'n sylweddol gydag ysgolion peilot yn dal i dderbyn symiau sylweddol ond llai.<br>Mae trafodaethau ar fformiwla caffael iaith yn parhau. Mae'r gostyngiad yng nghyllid ysgolion peilot wedi'i nodi a byddai'n cael ei ledaenu dros bedair blynedd ariannol, gan ddechrau ym mis Medi 2021.<br><br>Mae cyfarfod pellach gyda'r ysgolion peilot wedi'i drefnu a diweddariad wedi ei rannu yn y fforwm cyllideb ysgolion ar 12 Mai. Esboniodd NH o'r £4m o gyllid fe ddelir swm a ddarperir ar gyfer teithwyr, dirprwyir tri chwarter y cyllid sy'n weddill a'i ddosbarthu i'r gwasanaeth cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig gyda chwarter yn cael ei gadw'n ganolog. Roedd yr ysgolion peilot wedi gofyn pa wasanaeth a ddarparodd y tîm canolog ac a oes angen yr arbenigeddau ar draws y ddinas. Mae adolygiad o'r tîm canolog yn cael ei ystyried i ryddhau mwy o arian dirprwyedig ac ailddosbarthu cyllid, gan ddod â phroses reoli newydd. Bydd dadansoddiad o anghenion yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr arbenigeddau cywir ar waith. | |
| 5 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 5.1 | 12 Mai 2021 | |